O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 1485 (Cy. 184)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llandygái) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *31 Mai 2012*

*Yn dod i rym* *12 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llandygái) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 05:00 o'r gloch ar 12 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 9 ac 11 yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni caiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 nac ar naill ai'r gerbytffordd tua'r gorllewin na cherbytffordd tua'r dwyrain y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen 1.

**4.** (1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ond, yn unol ag erthygl 12, ddim yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar gerbytffordd tua'r dwyrain y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ond, yn unol ag erthygl 12, ddim yn cael ei wahardd rhag symud ar gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 a 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.65 metr o led neu'n lletach na hynny, na pheri na chaniatáu iddo fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri iddo gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**9.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach

na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

**10.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

**11.** Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (yr A5) (Llanfair Pwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1983**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlenni 5 a 6, wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 9 a 10 yn weithredol.

**12.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**13.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 31 Mai 2012

*G R Morgan*
**G R MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1983/1772.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau dros dro yn ystod gwrthlif

Y darn o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 700 o fetrau i'r

dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái, i bwynt 263 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 243 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái, i bwynt 263 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

## ATODLEN 2
## Gwahardd cerbydau dros dro ar gyfer cau'r ffordd dros nos (19:00 o'r gloch tan 06:00 o'r gloch)

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 514 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái, i bwynt 350 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyfnewidfa honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 350 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái, i bwynt 368 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyfnewidfa honno.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái.

## ATODLEN 3
## Gwahardd cerbydau dros dro ar gyfer y cyfnodau pan fydd y ffordd wedi cau am 20 munud

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth gychwyn y trwyniad lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymrannu oddi wrth y brif gerbytffordd wrth Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái i ddiwedd y trwyniad lle y mae'r ffordd ymuno tua'r gorllewin yn uno â'r brif gerbytffordd wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth gychwyn y trwyniad lle y mae'r

ffordd ymadael tua'r dwyrain yn ymrannu oddi wrth y brif gerbytffordd wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon i ddiwedd y trwyniad lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn uno â'r brif gerbytffordd wrth Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 10 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 11

## ATODLEN 4
## Gwaharddiad dros dro ar gerbydau sy'n 3.65 metr o led neu'n lletach na hynny, beicwyr a cherddwyr

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 514 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái i bwynt 263 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth i bwynt 368 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái

## ATODLEN 5
## Terfyn cyflymder dros dro o 40 mya

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái, i bwynt 350 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael wrth gyffordd 10 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 550 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl, i bwynt 368 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael wrth Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon a'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 11.

**ATODLEN 6**
**Terfyn Cyflymder Dros Dro o 30 mya**

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llandygái.